

CYFLWYNIAD

Yng Nghymru, cedwir geifr yn bennaf: i gynhyrchu llaeth, cig neu ffibrau (mohair a chashmir); i'w harddangos; neu fel anifeiliaid anwes. Nid oes data dibynadwy ar niferoedd geifr yng Nghymru, er bod daliadau yn fwy cyffredin yn ne'r wlad. Yn y DG gyfan mae rhyw 88,000-93,000 o eifr gan gynnwys 30,000 o eifr magu a ddefnyddir i gynhyrchu llaeth. Mae'r daflen hon yn canolbwyntio ar gadw geifr i gynhyrchu cig.

BRIDIAU

Ledled y byd, y traddodiad fu cadw geifr fel anifeiliaid at ddau bwrpas, i roi llaeth a chig. Fodd bynnag, yng Nghymru, mae'n fwy cyffredin i gadw geifr i gynhyrchu llaeth, ac y mae strategaethau magu wedi canolbwyntio ar wella'r nodweddion pwysig i gynhyrchu llaeth yn hytrach na chig. Mae'r bridiau godro sy'n deillio o hyn yn cyfateb fwy neu lai i fridiau o wartheg godro o ran cyffurfiad ac nid ydynt yn cael eu ffafrio gan y farchnad gig.

➤ Boer

Dyma'r unig frid o afr a ddatblygwyd yn benodol i gynhyrchu cig a dyma'r brid i'w ddewis os mai cynhyrchu cig gafr yw'r unig amcan. Mae gan eifr Boer gefn byrrach, coesau byrrach a golwg fwy "cydnerth" na bridiau godro traddodiadol (gweler Ffig. 1). Maent hefyd yn fwy rhadlon a haws eu trin na llawer o'r bridiau eraill. Gyda chynnydd yn y diddordeb mewn cig gafr, mae'n dod yn fwy cyffredin defnyddio a bwch boer fel tad terfynol gyda geifr godro i gynhyrchu epil o fwy o werth yn y farchnad gig.

➤ Eingl-Nubian

Er mai ar gyfer eu godro y'u cedwir yn bennaf, mae Eingl-Nubiaid yn cynhyrchu anifeiliaid gyda chyffurfiad carcass gweddol dda a chig dymunol.

➤ Angora

Cedwir geifr Angora fel arfer am eu blew, ond medrant hefyd gynhyrchu cig da ar anifeiliaid gyda chyffurfiad gweddol, ac y mae modd eu hystyried ar gyfer mentrau deublyg (ffibr a chig).



Ffigwr 1: Bwch Boer

CIG GAFR

Mae cig gafr (a adwaenir hefyd fel chevon) yn aml yn cael ei farchnata fel cig "iach" gan ei fod yn gig coch iawn ac yn arbennig o isel mewn braster anhrwythedig a cholesterol. Fel gyda defaid a gwartheg, mae oedran yr anifeiliaid adeg ei ladd yn effeithio ar nodweddion bwyta'r cig. Mae'n arferol hongian cig gafr ac y mae rhai marchnadoedd hefyd yn mynnu nad yw bychod geifr yn cael eu hysbaddu. Mae'n amlwg y bydd gwerthoedd maethynnol, naws bwyta a blas y cig wedi ei goginio yn dibynnu'n fawr ar ddull ei baratoi.

BRIDIO A MAGU

150 diwrnod yw cyfnod cyfebru gafr, ac y mae oestrws naturiol yn cychwyn yn gynnar yn yr hydref wrth i'r dydd fyrhau, a bydd yn parhau ar gylch tair-wythnos tan y gwanwyn. Mae dau fyn yn eithaf cyffredin. Er bod modd i afr fanw gael myn deirgwaith y flwyddyn, mae'n fwy arferol anelu at gael un bob blwyddyn. Tuag wyth mlynedd yw einioes economaidd gynhyrchiol gafr fanw. Y mae bychod geifr yn rhagaeddfed yn rhywiol, gan gychwyn gweithgaredd rhywiol tua 16 wythnos oed. Oni bai mai cael ei gadw ar gyfer ei fridio y bydd bwch, mae'n arferol ei ysbaddu yn ystod wythnos gyntaf ei fywyd; gwelwyd bod hyn yn arwain at ostyngiad bychan mewn cyfraddau twf, ond y mae manteision ysbaddu yn gwrthweithio hyn. Er y dengys ymchwil fod ymhadu artiffisial yn ddewis economaidd hyfyw wrth gynhyrchu cig gafr (gyda gwell cyfraddau beichiogi nac mewn defaid) mae paru naturiol yn fwy cyffredin o lawer. Bydd llawer o gynhyrchwyr yn gadael i'r bwch redeg gyda'r beinw, ond bydd angen trefn fwy reoledig os am amseru cynhyrchu'r mynnod i gwrdd â natur gylchol galwadau'r farchnad.

SYSTEMAU PORTHI

Caiff geifr beinw eu porthi ar wellt a byddant yn pori, gydag ychwanegiadau cyddwys yn ôl eu lefelau cynhyrchu. Mae systemau porthiant i'r mynnod wrth gynhyrchu cig gafr yn ymrannu fel a ganlyn: ymborth seiliedig ar laeth a phorthiant / ymborth seiliedig ar gyddwysiadau. Bydd mynnod Boer neu groesfrid Boer yn pwysu rhyw 3kg i 5kg adeg eu geni, a chyfradd twf fras ar gyfartaledd dros y chwe mis cyntaf yw 250g / dydd.

Tabl 1: Canllaw i bwysau lladd a chanrannau lladd allan

Oedran lladd	adeg	Amcan o bwysau byw adeg lladd	Cyfartaledd lladd allan %
3 – 5 wythnos		8kg – 12kg	50+
12 – 16 wythnos		10kg – 20kg	47 – 52
6 – 12 mis		40kg	45

System seiliedig ar laeth: defnyddir y system hon i gynhyrchu mynnod ifainc, brau. Caniateir i'r mynnod fynediad *ad libitum* at laeth naill ai gan eu mamau neu o system artiffisial. Caiff y mynnod fel arfer fynd at wellt, ond nid yw hyn yn rhan sylweddol o'r egni a gânt. Lledir hwy yn chwech wythnos oed neu cyn hynny.

System borthiant / cyddwysiadau: O ryw bythefnos oed, bydd y mynnod yn naturiol yn ceisio bwyta bwyd solet. Anifeiliaid sy'n cnoi cil yw geifr, ac y mae eu systemau treulio wedi ymaddasu ar gyfer ymborth gyda llawer o frasfwyd. Dengys ymchwil nad yw fel arfer yn gost-efeithiol i borthi geifr ar ymborth cyddwys uchel, ac argymhellir porthiant yn bennaf. Fodd bynnag, mae rhai cynhyrchwyr yn llwyddo i fagu mynnod ar belenni wyn protin uchel. Rhaid asesu unrhyw ymborth yn ofalus o ran ei allu i ateb anghenion yr anifeiliaid a'i gost-efeithiolrwydd. Dylech fynnu cyngor proffesiynol yn wastad o ran llunio'r dogn.

CARTREFU

Mae modd magu geifr naill ai mewn system dan do led-ddwys neu system awyr-agored tebyg i systemau traddodiadol defaid gyda chyfraddau stocio o ryw 12 benyw a mynnod yr hectar. Os cedwir hwy tu allan, rhaid i'r geifr fedru cyrchu cysgod yn rhwydd bob amser. Yn y naill system a'r llall, rhaid eu cartrefu mewn amgylchedd sych a rhydd o ddrafftiau, a rhaid i'r anifeiliaid fedru mynd at ddŵr yfed ffres bob amser. Y mae geifr Boer a chroesfridiau Boer yn fwy addas at bori na bridiau godro pur. O'u cymharu â defaid, mae'n well ganddynt lastir gyda chyfradd uchel o berlysiâu llydanddail. Mae Boeriaid a'u croesfridiau hefyd yn llai nwyfus ac yn llai tueddol o ddringo dros ffiniau na geifr godro, felly maent yn fwy addas i system awyr agored.

IECHYD

Dylech geisio cyngor proffesiynol yn wastad am iechyd gyrr o eifr. Ymysg meysydd y dylech fod yn arbennig o ofalus gyda geifr mae: pydredd traed a charnau yn gordyfu; llyngyr (helminths); clefydau bacteriol, yn enwedig clefyd arenau pwdr - achosir gan facteria clostridiol; a thetanws. Mae'n bwysig iawn deall a chydymffurfio â deddfwriaeth am beidio â rhoi llaeth i'w yfed gan bobl wedi defnyddio rhai mathau o gyffuriau.

MARCHNADOEDD

Fel gydag unrhyw fenter fusnes arall, cyn cychwyn ar fenter cynhyrchu cig gaf, mae'n hanfodol ymchwilio'n drylwyr i'r farchnad i bennu faint o alw sydd am y cynnyrch. Er nad yw'r farchnad yng Nghymru wedi datblygu cymaint â hynny, y mae rhai cyfleoedd i werthu cig gafr i fwytai, siopau ethnig arbenigol ac i'r cyhoedd. Mae'r galw am gig gafr yn cynyddu adeg y Pasg, Nadolig a Ramadan. Mae prisiau adwerthu am ddarnau o gig wedi eu pacio'n barod yn amrywio yn sylweddol yn dibynnu ar yr adeg o'r flwyddyn, y lleoliad a'r ansawdd. Mae gwerthoedd mynegol yn amrywio o £8 / kg am ysgwydd (gyda'r asgwrn) i £20 / kg am lwyn wedi'i rowlio a'r asgwrn wedi ei dynnu.

LLADD a PHROSESU

Mae'r dull o ladd geifr yr un ag ar gyfer defaid, a gall unrhyw ladd-dy neu gigydd sydd â thrwydded i ladd defaid ladd geifr hefyd. Fodd bynnag, gyda geifr y mae'n fwy cyffredin i'r cynhyrchwr dalu'r lladd-dy (a'r cigydd os bydd angen) i ladd yr anifail ac i'r cynhyrchwyr farchnata eu cynnyrch eu hunain. Mae prisiau mynegol yn £10 / pen am ladd a £5 / carcass os oes angen torri'r cig yn brif doriadau.

DEDDFWRIAETH

Daeth deddfwriaeth am adnabod ac olrhain geifr i rym ym mis Chwefror 2003: rhaid i unrhyw afr a enir wedi 01/01/2002 gael ei nodi â nod praidd / gyrr; ers 01/02/2003 rhaid i bob gafr unigol fod â rhif unigryw, yn ychwanegol at y nod praidd / gyrr.

Mae'n ofyniad cyfreithiol i roi adroddiad am farwolaeth unrhyw afr hŷn na 18 mis trwy ffonio 0800 525890.